Prifathro Newydd

Mr R.T.Evans, Prifathro newydd, Ysgol Penrhyn-coch.
Brodor o Gwmystwyth yw Mr Trefor Evans, a derbyniodd ei addysg yn Ysgol Gynradd, Cwmystwyth, Ysgol Ramadeg, Tregaron, a Choleg y Drindod Caerfyrddin. Ar ôl treulio peth amser yng Nghaerdydd yn athro Cymraeg, daeth yn ôl i Geredigion, a bu'n dysgu yn Llanrhystud a Thregaron, cyn ei benodi'n brifathro Ysgol Syr John Rhŷs, Ponterwyd dwy flynedd ar bymtheg yn ôl. Dechreuodd yn ei swydd newydd ym Mhenrhyn-coch ar Fedi laf eleni. Ef yw'r pumed prifathro yn hanes Ysgol Penrhyn-coch, er bod addysg ddyddiol wedi ei chyfrannu yma am 110 o flynyddoedd. Pob llwyddiant i Mr.Evans.